

# **Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl: Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)**

Ysbyty Aneurin Bevan / Carn-y-  
cefn / Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 16 Hydref  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth sydd nesaf? .....	23
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl (Dirybudd) yn y GIG yn Ysbyty Aneurin Bevan o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 16 Hydref 2017. Ymwelwyd â'r ward ganlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Carn-y-cefn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Gwnaethom ystyried sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Archwiliodd AGIC hefyd sut roedd y gwasanaeth yn bodloni agweddau ar y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd angen rhoi sylw i brosesau ynghylch hawliau meddyginiaeth a sicrhau bod gan gleifion gopiâu o'u papurau cadw, oherwydd bod y rhain ar goll yn ffeil y claf y gwnaethom ei hadolygu.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth o sgysiau'r ymgylchreion statudol, nac o'r clinigydd yn rhoi adborth i'r claf ar ôl ymweliad gan feddyg a benodwyd i roi ail farn (SOAD)<sup>1</sup>.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn addas i'r grŵp cleifion, roedd i'w weld yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd archwiliadau mewnol wedi tynnu sylw at welliannau pellach i'r ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom argymhell y dylid rhoi blaenoriaeth i'r materion a nodwyd gennym ynghylch y camerâu teledu cylch cyfyng ar y ward, er mwyn cadarnhau nad yw preifatrwydd nac urddas cleifion yn cael eu peryglu, bod y gwaith o fonitro'r camerâu yn briodol ac yn ddiogel ac nad yw'r defnydd o'r camerâu teledu cylch cyfyng yn cael effaith ar arferion proffesiynol. Dylid anfon polisïau a gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer eu defnyddio, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer camerâu ychwanegol at AGIC.

Drwy drafodaethau â staff ac arsylwadau, daethom i'r casgliad bod gwaith tîm da ar waith a bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal

---

<sup>1</sup>Meddyg a benodwyd i roi ail farn – Meddyg annibynnol a benodir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n rhoi ail farn ynghylch p'un a ddylid rhoi mathau penodol o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol heb gydsyniad y claf.

o safon uchel i'r cleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu darparu i gleifion dros y penwythnosau a chyda'r hwyr, a oedd yn cynnwys mynediad at weithgareddau yn y gymuned lle bo'n berthnasol
- Roedd staff yn awyddus i ymgysylltu ac roedd ganddynt agwedd gadarnhaol wrth ymgymryd â datblygu prosesau newydd er mwyn cydymffurfio â Chod Ymarfer Diwygiedig 2016
- Roedd cydberthynas dda gyda'r gwasanaeth eiriolaeth
- Gwnaethom arsylwi ar waith tîm da

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r cod ymarfer a diwygio prosesau mewnol o ganlyniad. Yn benodol, sicrhau bod prosesau ynghylch hawliau meddyginiaeth a chleifion yn derbyn copïau o'u papurau cadw
- Sicrhau bod tystiolaeth ar gael mewn cofnodion cleifion sy'n nodi'r gallu i gydsynio i feddyginiaethau, ac y darperir adborth yn dilyn ymweliad gan feddyg a benodwyd i roi ail farn fel eu bod yn ymwybodol o'r canlyniad
- Adolygu'r materion a nodwyd gennym ynglŷn â'r camerâu teledu cylch cyfyng ar y ward
- Cynnal adolygiad o hyfforddiant staff, fel bod modd gweld trosolwg o statws cyfredol staff o ran eu cydymffurfiaeth â hyfforddiant, ac y gellir rhoi sicrwydd bod staff wedi diweddarau eu hyfforddiant
- Adolygu argaeledd hyfforddiant yn null ystafell ddosbarth a pha mor aml mae hyfforddiant yn cael ei ganslo er mwyn adnabod yr effaith y caiff hyn ar y ward, a gallu staff i ddarparu gofal diogel i'r grŵp cleifion

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Ysbyty Aneurin Bevan yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Lime Avenue, Glynebwy, NP23 6GL o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Carn-y-cefn yw'r ward iechyd meddwl yn Ysbyty Aneurin Bevan. Ward iechyd meddwl aciwt 11 wely yw'r ward, sy'n asesu ac yn rhoi triniaeth ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd sy'n dioddef o salwch meddwl aciwt.

Mae gan y ward ystafelloedd gwely en-suite, iard amgaeedig, ac ardaloedd therapiwtig eraill at ddefnydd y claf.

Roedd gan y ward dîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ward, nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd, dau ymgynghorydd, therapydd galwedigaethol a staff gwasanaethau gwesty. Darperir sesiynau seicoleg ddwy neu dair gwaith yr wythnos ac mae mewnbwn gan dîm iechyd meddwl cymunedol a gweithwyr cymdeithasol ar gael.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwnaethom arsylwi ar staff yn trin cleifion â pharch drwy gydol ein harolygiad. Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i gynnal urddas cleifion, ac roedd yr ystafelloedd gwely en-suite yn darparu preifatrwydd ychwanegol ar gyfer y cleifion.

Roedd y ward i'w gweld yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac roedd iard y tu allan er mwyn i gleifion gael awyr iach.

Gwelsom hysbysfyrddau'n dangos amrywiaeth o wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr, ac roedd cyfleoedd er mwyn i gleifion roi adborth ynglŷn â'r gwasanaeth. Roedd poster o'r enw 'Dywedoch chi, Gwnaethon ni' yn dangos rhywfaint o'r adborth gan gleifion a'r hyn roedd y gwasanaeth wedi'i wneud ynglŷn â'r sylwadau roeddent wedi'u gwneud.

Gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y ward, ac roeddem yn falch o glywed gan gleifion fod cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned ar gael, lle bo'n berthnasol.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom gynnig y cyfle i gleifion, staff ac ymwelwyr siarad â ni. Dywedodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw, yn gyffredinol, eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r driniaeth sy'n cael eu derbyn a bod y staff yn barod eu cymwynas ac yn gefnogol.

### **Cadw'n iach**

Roedd adborth gan gleifion yn gadarnhaol o ran y bwyd a oedd yn cael ei weini ar y ward. Cadarnhaodd cleifion fod tri phryd o fwyd bob dydd, gan gynnwys brechwast, cinio a phryd o fwyd gyda'r hwyr. Roedd cleifion yn gwneud eu

dewisiadau'r diwrnod cynt, a gwelsom sampl o'r dewisiadau ar y fwydlen a oedd yn cynnwys prydau bwyd cynnes ac oer.

Roedd diodydd a byrbrydau y tu allan i amseroedd pryd bwyd penodol yn cael eu darparu gan staff. Ni ddywedodd yr un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ei fod yn cael problemau o ran cael mynediad at y rhain pan oedd angen.

Roedd poster wedi'i arddangos ar y ward yn hysbysebu rhaglen rheoli pwysau a oedd yn allanol i'r ysbyty. Y poster oedd yr unig wybodaeth a welwyd a fyddai'n annog cleifion i gynnal ffordd iach o fyw.

Roedd cleifion yn gallu symud yn rhydd ar y ward ac roedd ganddynt fynediad i'w hystafelloedd gwely, lolfeydd a'r iard y tu allan. Nid oedd angen cymhorthion symudedd ar unrhyw gleifion ar adeg ein hymweliad – fodd bynnag, dywedodd staff wrthym fod cleifion a oedd angen cadair olwyn wedi derbyn gofal ar y ward.

Roedd yn hawdd cael mynediad at yr ardal y tu allan rhwng 9am a 9pm. Roedd seddi, prysgwydd a llwyni yn yr ardal a oedd yn ei gwneud mor ddeniadol a therapiwtig â phosib.

Roedd therapi galwedigaethol ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm. Dywedwyd wrthym fod gweithgareddau yn ystod penwythnosau a chyda'r hwyr yn cael eu hwyluso gan y staff. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gemau, ac roedd claf wedi bod yn rhedeg gyda therapydd galwedigaethol. Dywedodd cleifion wrthym hefyd fod ganddynt fynediad at lyfrau, gemau a bwrdd pŵl. Roedd staff yn agored i syniadau newydd ynghylch gweithgareddau, ac roedd rhai cleifion yn mynd i weithgareddau yn y gymuned.

Roedd y ward wedi'i diogelu rhag mynediad heb awdurdod a byddai'r holl ymwelwyr yn cofrestru yn ardal y dderbynfa i gael mynediad. Roedd gan ddrysau'r fynedfa wydr anhryloyw a oedd yn caniatáu preifatrwydd ac urddas cleifion ar y wardiau.

Roedd bwrdd statws cleifion<sup>2</sup> yn swyddfa'r ward a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol ynghylch pob claf a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau ar gael i guddio gwybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod y tîm staff yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu cyfrinachedd cleifion.

## **Gofal ag urddas**

Gwelsom fod staff ar y ward yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd priodol ac yn trin cleifion â pharch ac urddas. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am sut roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn tonau tawel, ac roedd tystiolaeth bod staff yn cyfarch cleifion wrth eu henwau dewisol.

Roedd gan bob ystafell wely banel arsylwi (ffenstr) yn y drws a gwelsom fod y rhain yn bennaf yn agored. Oherwydd nad oedd y cleifion yn gallu defnyddio'r rhain o'r tu mewn i'w hystafell wely, dylai paneli arsylwi fod ar gau er preifatrwydd ac ond yn cael eu hagor er mwyn arsylwi neu os yw'r claf yn dewis hynny. Mae hyn er mwyn cefnogi urddas a hawl i breifatrwydd cleifion.

## **Gwybodaeth cleifion**

Roedd hysbysfyrddau gyda gwybodaeth i gleifion wedi'u harddangos ar y ward. Roedd gan y bwrdd luniau 'cwrdd â'r tîm' o'r holl staff, gan gynnwys eu henw a'u rôl. Roedd hysbysfyrddau a oedd yn benodol i rai disgyblaethau, gan gynnwys seicoleg a therapi galwedigaethol, yn cael eu harddangos, gyda gwybodaeth am eu grwpiau a'u gweithgareddau. Roedd poster pryderon ac adborth ger swyddfa'r nyrsys. Roedd yr holl wybodaeth uchod yn ddefnyddiol ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gael ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am eiriolaeth, cwynion, taflenni cyngor am rai cyflyrau, yn ogystal â thafleenni penodol yn Gymraeg.

---

<sup>2</sup> Bwrdd sy'n rhoi cyfeiriad cyflym i'r staff ynghylch yr wybodaeth hanfodol am gleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Clywsom staff yn ymgymryd â thrafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r cleifion unigol.

## Gofal amserol

Roedd gan y ward dîm amlddisgyblaethol a oedd yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, fferyllwyr, gweithwyr cymdeithasol ac ymgynghorwyr. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd yn ymgorffori ymagwedd gydweithiol yn y gofal, a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

## Gofal unigol

### Hawliau pobl

Gallai cleifion ddefnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol a hefyd gael mynediad at y Gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol pan fo angen.

Roedd lleoedd addas i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat ar y ward ynghyd â threfniadau i wneud galwadau ffôn preifat.

### Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd dulliau ar waith er mwyn casglu adborth. Dywedodd staff wrthym fod cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal gyda chleifion, a gwelsom ymateb 'Dywedoch chi, Gwnaethon ni' dyddiedig Awst 2017 ar un o'r hysbysfyrdau. Roedd y poster hwn yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a wnaed a'r camau a gymerwyd gan y ward.

Roedd gan boster y tu allan i swyddfa'r nyrsys wybodaeth ynghylch sut y gellid rhoi adborth, gan gynnwys enwau a lluniau'r staff a fyddai'n cynorthwyo gyda'r dasg hon.

Roedd blwch awgrymiadau ar gael ar ben y teledu yn y lolfa. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ffurflenni na phapur ar gael er mwyn cyflwyno sylwadau. Byddai gwelliannau i'r cyfleuster hwn yn helpu i wella sut mae'r ward hon yn derbyn adborth gan gleifion.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn helpu cleifion a oedd yn rhoi unrhyw sylwadau llafar i sicrhau eu bod yn cael eu nodi ac yr eid i'r afael â nhw mewn

modd priodol. Roedd y taflenni' 'Gweithio i Wella' yn cael eu storio ar bwys yr ystafell dawel.

Roedd gwasanaethau eiriolaeth ar gael i ddarparu cyngor annibynnol i unrhyw glaf a oedd am leisio unrhyw bryderon.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwnaeth ein hadolygiad o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl dynnu sylw at nifer o feysydd y mae angen eu gwella, a gwnaethom argymhell bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r cod ymarfer ac yn diwygio eu proses o ganlyniad.

Yn ôl pob golwg roedd amgylchedd yr ysbyty'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda a, thrwy archwiliadau mewnol, roedd gwelliannau pellach wedi'u nodi er mwyn sicrhau bod y ward wedi'i chyfarparu'n dda â dodrefn, gosodiadau a ffitiadau a oedd yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion.

Gwnaethom argymhell bod y materion a nodwyd ynghylch y camerâu teledu cylch cyfyng sy'n cael eu gweithredu ar y ward yn cael eu hadolygu fel mater o flaenoriaeth. Dylid anfon polisïau a gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer eu defnyddio, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer camerâu ychwanegol at AGIC.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, ac i gynnal iechyd a diogelwch ar y ward.

Wrth fynd i mewn i'r ardal lle mae'r ward wedi'i lleoli, roedd desg dderbynfa a man aros. Roedd y ward ar glo, ond roedd y staff yn cael mynediad iddi gan ddefnyddio system ffob. Mae'r staff yn hebrwng ymwelwyr i'r ward ac mae hyn yn sicrhau diogelwch cleifion ac ymwelwyr.

Roedd gan y staff fynediad i larymau personol a radios a gwelsom staff yn gwisgo'r rhain yn ystod ein hymweliad. Roedd hefyd glychau galw am gymorth yn ystafelloedd gwely'r cleifion a oedd yn hawdd eu cyrraedd.

Roedd camerâu teledu cylch cyfyng wedi'u lleoli ar y ward, gyda chamerâu yn yr ardd, yr ystafell ysmegu, y lolfa a'r cyfleuster gofal ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod camerâu ychwanegol yn mynd i gael eu gosod yng nghoridor ardal yr ystafelloedd gwely. Ar adeg ein hymweliad nid oedd hysbysiadau ar y ward yn dweud wrth gleifion ac ymwelwyr fod camerâu teledu cylch cyfyng ar waith. Roedd dyddiad y polisi ar gyfer defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng wedi dod i ben ers chwe blynedd, nid oedd yn benodol i'r bwrdd iechyd cyfredol ac nid oedd gweithdrefnau lleol ar gyfer defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng ar y ward. Roedd monitor y teledu cylch cyfyng wedi'i leoli yn swyddfa'r nyrsys, ac wrth i ni ofyn i weld y lluniau, roedd yn amlwg bod y camera a leolir yn y cyfleuster gofal ychwanegol yn gallu gweld drws yr ystafell wely yn glir. Roedd panel arsylwi yn nrws yr ystafell wely a oedd ar agor a gallwch weld y gwely'n glir. Roedd yn ffodus nad oedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio ar adeg ein hymweliad – fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch y problemau o ran preifatrwydd ac urddas y mae'r camerâu teledu cylch cyfyng yn eu peri i gleifion.

Yn ogystal, nid oedd monitor y teledu cylch cyflym wedi'i leoli mewn ystafell benodol, ond yn hytrach mewn swyddfa agored, felly roedd yn rhoi'r potensial i ganiatáu i ymwelwyr weld delweddau'r teledu cylch cyfyng. Drwy sgysiau â staff, gwnaed yn glir nad oedd y camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu defnyddio o ganlyniad i brinder staff, a bod y camerâu yno fel dull ataliol yn erbyn digwyddiadau. Gellid dadlau nad yw camerâu teledu cylch cyfyng yn atal digwyddiadau rhag digwydd, ac mae angen i'r ward sicrhau bod ganddynt brosesau ar waith sy'n galluogi staff i reoli'r grŵp cleifion a'r risgiau'n effeithiol ac yn ddiogel heb amharu ar eu harferion proffesiynol. Gwnaethom argymhell bod y materion a godwyd ynghylch y camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu hadolygu fel mater o flaenoriaeth, a bod polisiâu a gweithdrefnau diwygiedig, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer unrhyw gamerâu ychwanegol, yn cael eu hanfon at AGIC.

Yn ôl pob golwg roedd y ward wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, a oedd yn sicrhau diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr. Roedd y staff yn gallu adrodd am broblemau amgylcheddol i dîm ystadau'r ysbyty, a gadarnhaodd eu bod yn cael eu datrys yn amserol.

Drwy archwiliadau mewnol, dywedwyd wrthym fod problemau o ran pwyntiau clymu wedi'u nodi, ac y byddent yn cael eu cywiro, ac y byddai drws stabl newydd yn cael ei osod ar yr ystafell glinigol. Byddai'r gwelliannau hyn yn

sicrhau bod nodweddion diogelwch pellach, gan sicrhau bod y dodrefn, gosodiadau a ffitiadau yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r materion a nodwyd ynghylch y camerâu teledu cylch cyfyng ar y ward, er mwyn sicrhau nad amherir ar breifatrwydd ac urddas y grŵp cleifion; a sicrhau bod y gwaith o fonitro'r delweddau'n briodol ac yn unol â'r arferion cyfredol o ran moeseg a chydsyniad, ac nad yw unrhyw ddibyniaeth ar deledu cylch cyfyng yn cael effaith ar arferion proffesiynol. Dylid anfon polisïau a gweithdrefnau diwygiedig, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer camerâu ychwanegol at AGIC.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

### Gofal effeithiol

#### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y ddwy ward yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol ar gyfer cleifion.

#### Cadw cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn gymysgedd o ffeiliau electronig a phapur. Roedd trefniadau storio diogel ar waith i atal mynediad heb awdurdod a thorri cyfrinachedd.

O'r cofnodion a adolygwyd gennym, roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn gwneud cofnodion cleifion yn haws eu defnyddio a dod o hyd i wybodaeth. Roedd rhai ffeiliau'n anhydrin ac yn heriol eu defnyddio oherwydd bod y ffeilio yn anghyson. Gwnaethom nodi bod nifer o ddogfennau wedi'u dyblygu yn y cofnodion a adolygwyd gennym. Roedd dod o hyd i ddogfennau perthnasol yn waith anodd a llafurus; byddai hyn yn heriol i unrhyw un sy'n darparu gofal i glaf nad ydynt yn gyfarwydd ag ef, megis staff newydd neu weithwyr ar ddyletswydd, sy'n dod â goblygiadau posibl ar gyfer gofal a diogelwch cleifion.

Gwnaethom argymhell pan fydd ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn dod i ben y dylid eu marcio'n glir i ddangos nad ydynt bellach yn ddilys. Roedd y



cofnodion a adolygwyd gennym yn dangos nad oedd hyn yn digwydd. Yn ogystal, canfuom dystysgrifau awdurdodi triniaeth yn y ffeiliau nad oeddent bellach yn awdurdodi triniaeth, a dylid hefyd nodi'n glir nad yw'r rhain yn ddilys.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwella cofnodion cleifion fel bod modd dod o hyd i wybodaeth yn hawdd a chael gwared ar wybodaeth sydd wedi'i dyblygu.

Mae angen marcio ffurflenni'n glir, yn benodol ffurflenni absenoldeb Adran 17 a thystysgrifau awdurdodi triniaeth i ddangos eu bod wedi'u canslo pan nad ydynt bellach yn ddilys.

### Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer un claf. O ganlyniad, gwnaethom nodi nifer o feysydd sydd angen eu gwella, ac argymhell bod y cod ymarfer lleol yn cael ei adolygu fel bod modd diwygio prosesau mewnol yn unol â'r Cod Ymarfer Cenedlaethol.

Yn y cofnod a adolygwyd gennym, gwelsom fod gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wedi sicrhau bod y meini prawf ar gyfer cadw wedi'i fodloni, a'i fod wedi darparu cofnod manwl a chynhwysfawr yn unol â gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn y nodiadau a adolygwyd y cydymffurfiwyd â'r broses ynghylch hawliau meddyginaeth. Roedd hyn yn benodol yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth. Lle roedd angen meddyg a benodwyd i roi ail farn, nid oedd y cofnod o drafodaeth yr ymgylgoreion statudol wedi cael ei gwblhau a chadarnhaodd staff hyn ar adeg ein hymweliad. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y claf wedi cael gwybod am y canlyniad yn dilyn ymweliad y meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Roedd y dystysgrif o'r ail farn yn cael ei chadw gyda'r siart presgripsiwn, ac roedd nodiadau wedi'u dogfennu ynglŷn â'r claf yn gwrthod cymryd meddyginaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod hawliau'r claf yn cael eu darllen iddynt yn rheolaidd, gan gynnwys apelio yn erbyn cael eu cadw. Roedd dystiolaeth bod cleifion yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth eiriolaeth.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r cod ymarfer a diwygio'r prosesau mewnol o ganlyniad, yn benodol:

- Y broses ynghylch hawliau meddyginaeth
- Y broses ynghylch sicrhau bod cleifion yn cael copïau o'u papurau cadw
- Tystiolaeth bod sgysiau'r ymgylgoreion statudol yn cael eu cofnodi, a thystiolaeth o'r adborth a roddir i glaf ar ôl ymweliad gan feddyg a benodwyd i roi ail farn
- Tystiolaeth yn nodiadau'r cleifion ynghylch y gallu i gydsynio i feddyginaeth

## Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Ynghyd â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, gwnaethom ystyried y defnydd o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Gwnaethom adolygu un cynllun gofal a thriniaeth a gweld bod tystiolaeth bod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer cleifion a, lle y bo'n briodol, bod aelodau'r teulu'n rhan o drefniadau cynllunio gofal.

Roedd tystiolaeth glir yn y cynllun gofal a thriniaeth a adolygwyd gennym fod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i gleifion, a oedd yn dod i'r ward bob wythnos. Roedd y wybodaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn yn hygyrch iawn.

Er mwyn ategu cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth eang o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn amlinellu'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Gwelsom fod y cynllun gofal a thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Drwy drafodaethau â staff ac arsylwadau ar y ward, daethom i'r casgliad bod gwaith tîm da ar waith a bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Drwy gydol yr arolygiad, roedd staff yn agored i'n safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Roedd prosesau ar waith i staff dderbyn arfarniad blynyddol a chwblhau hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod system yn cael ei rhoi ar waith sy'n gallu cynnig trosolwg o statws yr holl hyfforddiant staff oherwydd nad oedd hyn yn glir yn ystod yr ymweliad. Yn ogystal, mae angen adolygu hyfforddiant oherwydd nad oedd gan rai cyrsiau ddyddiadau cwblhau wedi'u cofnodi yn eu herbyn.

Rhoddir hyfforddiant y Ddeddf Iechyd Meddwl i staff yn ystod eu cyfnod sefydlu a phob tair blynedd ar ôl hynny. Gofynnwn i'r bwrdd iechyd ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ynghylch y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac ymgorffori'r meysydd hyn mewn cyrsiau diweddar yn y dyfodol er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth staff o'r Ddeddf.

Roedd mewnbwn da gan y tîm amlddisgyblaethol ar y ward, a gwelsom weithgareddau'n cael eu cynnal ar y ward. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roeddent yn cael eu cofnodi a'r cofnodion yn cael eu dosbarthu i bob aelod o staff nad oedd yn gallu mynd i'r cyfarfod.

## **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y ward yn canolbwyntio ar wella eu gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl, yr oedd ei chanlyniadau yn cael eu cyflwyno i uwch-reolwyr fel y gallai canlyniadau gael eu monitro a chanlyniadau clinigol gael eu trafod mewn perthynas â darparu gofal cleifion.

Roedd gan Ward Carn-y-cefn reolwr ward dynodedig a dirprwy reolwr a oedd yn cael eu cefnogi gan dimau ward ac amlddisgyblaethol ymroddedig.

Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a dywedodd y staff fod y gwaith tîm ar y wardiau'n dda iawn. Dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi gan reolwyr, gan eu disgrifio fel hawdd mynd atynt.

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff ar yr holl wardiau'n agored i'n safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

## **Staff ac adnoddau**

### **Gweithlu**

Gwnaethom weld bod gan y ward dîm da a dywedodd staff wrthym am hyn. Gwelsom y tîm yn gweithio'n dda ac unigolion brwdfrydig yn darparu gofal ymroddedig i gleifion. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd swyddi gwag o ran staff ar y ward. Cafwyd awdurdod yn ddiweddar i gynyddu nifer y nyrsys cofrestredig ar y ward. Mae hyn yn golygu y bydd nyrs gofrestrredig ychwanegol yn gweithio yn ystod y sifft nos yn y Flwyddyn Newydd, gan gynyddu nifer y nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd yn ystod y nos i ddwy nyrs.

Roedd yr holl staff a chleifion y gwnaethom siaradom â nhw yn gadarnhaol ynglŷn â'r gweithgareddau a gynigir, a buddion hyn ar gyfer y grŵp cleifion. Gwnaethom arsylwi ar weithgareddau'n cael eu cynnal ar y ward, a dywedwyd wrthym am y cyfleoedd er ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Roedd yn gadarnhaol clywed, er mai o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am tan 5pm roedd y therapydd galwedigaethol yn gweithio, y byddai aelodau eraill o staff yn nhîm y ward yn gwneud amser er mwyn sicrhau bod gan gleifion weithgareddau i gymryd rhan ynddynt gyda'r hwyr a thros y penwythnos.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu dogfennu. Roedd cofnodion o'r cyfarfodydd tîm yn cael eu he-bostio at bob aelod o staff, a chedwid copïau yn yr ystafell staff a'r llyfr trosglwyddo. Roedd hyn yn sicrhau

bod unrhyw aelod o staff nad oedd ar ddyletswydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwnaethom arolygu'r rhaglen hyfforddiant staff gorfodol a nodi bod y Cofnod Staff Electronig yn dangos cyfradd cydymffurfiaeth o 67%. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gallu dangos dadansoddiad o ba hyfforddiant roedd y ganran hon yn ei gynnwys. O ganlyniad, roedd system bapur yn cael ei chadw a oedd â thafleddi dogfennol yn dangos presenoldeb staff mewn cyrsiau hyfforddi penodol. Dangosodd adolygiad o'r cofnodion papur fylchau sylweddol mewn rhai meysydd. Cofnodwyd nad oedd unrhyw aelodau staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar reoli meddyginiaethau, ac roedd meysydd eraill lle roedd ychydig o ddyddiadau yn unig wedi'u cwblhau. Mae'n hanfodol bod trosolwg cywir a chyfredol o hyfforddiant staff ar gael. Felly, argymhellwyd bod y systemau'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod cofnod cywir o hyfforddiant staff ar gael, i sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ofalu am y grŵp cleifion.

Dywedodd staff wrthym nad oedd digon o ddyddiadau ar gael ar gyfer rhai mathau o hyfforddiant yn null ystafell ddosbarth, gan gynnwys atal a thawelu, a'u bod yn cael eu canslo a bod hyn yn cael effaith ar y ward. O ganlyniad, mae hyn yn arwain at hyfforddiant sydd wedi dyddio, a allai arwain at ragor o ddigwyddiadau oherwydd nad yw'r sgiliau a'r wybodaeth wedi cael eu diweddarau mewn modd amserol. Wrth adolygu'r cofnodion hyfforddiant ar bapur, gwelsom y nodwyd bod cwrs wedi'i ganslo ym mis Mehefin 2017. Gwnaethom argymhell bod y mater hwn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau nad yw hyfforddiant sy'n cael ei ganslo a/neu ddyddiadau annigonol a fyddai'n cael effaith ar ddiogelwch cleifion a staff yn peri risg i'r ward.

Nid oedd unrhyw broblemau o ran staff yn cael mynediad at hyfforddiant ychwanegol ac allanol perthnasol gyda chymeradwyaeth y rheolwr llinell.

Gwnaeth trafodaethau gyda staff dynnu sylw at yr hyfforddiant penodol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a ddarperir yn fewnol yn ystod cyfnodau sefydlu, a phob tair blynedd wedi hynny fel hyfforddiant diweddarau. Yn ystod ein hadolygiad o'r gwaith papur ar y Ddeddf Iechyd Meddwl, a'n trafodaethau â'r staff ar y pryd ynghylch y canfyddiadau, roedd yn amlwg bod bylchau yn eu dealltwriaeth. Rydym felly'n argymhell bod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ynghylch y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu hystyried fel meysydd posibl o hyfforddiant ar gyfer y cwrs diweddarau nesaf i staff.

Roedd staff yn derbyn arfarniadau blynyddol a oedd yn cael eu cofnodi ynghyd â dyddiadau cwblhau a gofnodid ar system y Cofnod Staff Electronig. Roedd y system yn dangos cyfradd cydymffurfiaeth o 84% ar gyfer arfarniadau staff.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y weithdrefn ar gyfer adrodd am digwyddiadau, a gwnaethant ddangos dealltwriaeth a gwybodaeth glir ynghylch y broses hon. Cofnodid digwyddiadau ar y system Datix<sup>3</sup> a dywedodd y staff wrthym y byddai gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod â thîm y ward yn ôl y gofyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen rhoi system gynhwysfawr ar waith sy'n gallu darparu trosolwg o statws cyfredol hyfforddiant staff a sicrhau bod staff yn diweddarau eu rhaglen hyfforddiant gorfodol.

Mae angen cynnal adolygiad o argaeledd hyfforddiant (yn benodol hyfforddiant yn null ystafell ddosbarth) ac o ba mor aml mae hyfforddiant yn cael ei ganslo, er mwyn nodi'r effaith y caiff hyn ar y ward, a gallu staff i ddarparu gofal diogel i'r grŵp cleifion.

Mae angen ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ynghylch y Ddeddf Iechyd Meddwl wrth gynllunio hyfforddiant diweddarau ar gyfer staff, fel bod gwybodaeth a dealltwriaeth well yn cael eu rhannu ymysg staff.

---

<sup>3</sup> System adrodd am ddigwyddiadau a rheoli risgiau yw Datix ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau clinigol a'u holrhain.

## 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, ac sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG

Fel arfer, mae ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Yn ystod ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG, byddwn yn ystyried sut mae'r gwasanaethau'n gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- Bodloni agweddau ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Ysbyty Aneurin Bevan

**Ward:** Carn-y-cefn

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd ar unwaith				

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Aneurin Bevan

**Ward:** Carn-y-cefn

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Ni wnaed unrhyw argymhellion				
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae angen gwella cofnodion cleifion fel bod modd dod o hyd i wybodaeth yn hawdd a chael gwared ar wybodaeth sydd wedi'i dyblygu.	3.5. Cadw Cofnodion	Mae angen cynnal archwiliadau rheolaidd o'r holl gofnodion cleifion mewnol er mwyn sicrhau bod cofnodion pob claf yn drefnus – gan wirio nad oes gwybodaeth wedi'i dyblygu.	Rheolwr y ward / Dirprwy reolwr y ward	Rhagfyr 2017
Mae angen marcio ffurflenni'n glir, yn benodol	Deddf Iechyd	Memo wedi'i anfon at glinigwyr cyfrifol a	Rheolwr y Ward /	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ffurflenni absenoldeb Adran 17 a thystysgrifau awdurdodi triniaeth i ddangos eu bod wedi'u canslo pan nad ydynt bellach yn ddilys.	Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru 2016 27.17; 25;87	<p>staff cymwysedig er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r arfer cywir hwn.</p> <p>Mae'r holl reolwyr ward a chlinigwyr cyfrifol wedi cael eu hatgoffa am y cyfrifoldebau i farcio ffurflenni absenoldeb Adran 17 a thystysgrifau triniaeth i ddangos nad ydynt bellach yn ddilys.</p> <p>Bydd cydymffurfiaeth â hyn yn cael ei monitro gan reolwyr y ward / dirprwy reolwyr y ward a thîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl drwy archwiliadau.</p>	Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl / yr Arweinydd Clinigol a'r Tîm Gweinyddol	<p>Cwblhawyd</p> <p>Rhaglen archwilio perfformiad dreigl bob 6 mis</p>
Mae angen adolygu'r materion a nodwyd ynghylch y camerâu teledu cylch cyfyng ar y ward er mwyn sicrhau nad amherir ar breifatrwydd ac urddas y grŵp cleifion; a sicrhau bod y gwaith o fonitro'r delweddau'n briodol ac yn unol â'r arferion cyfredol o ran moeseg a chydysniad, ac nad yw unrhyw ddibyniaeth ar deledu cylch cyfyng yn cael effaith ar arferion proffesiynol. Dylid anfon polisïau a gweithdrefnau diwygiedig, gan gynnwys	<p>2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p> <p>4.1 Gofal ag urddas</p> <p>Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru 2016,</p>	<p>Defnyddir camerâu teledu cylch cyfyng yn ardaloedd cymunedol Carn-y-cefn er mwyn gwella diogelwch cleifion mewnol a rhoi sicrwydd i gleifion ac ymwelwyr.</p> <p>Defnyddir delweddau i alluogi mynediad at wybodaeth – sydd weithiau'n hanfodol – yn gyflym mewn perthynas â digwyddiadau andwyol difrifol wrth i bethau ddigwydd, megis pobl sydd wedi mynd ar goll, er mwyn cefnogi camau</p>	<p>Yr Adran Iechyd a Diogelwch gyda'r Is-adran Iechyd Meddwl</p> <p>Staff Cymwysedig y Ward</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cynlluniau ar gyfer camerâu ychwanegol at AGIC.	Pennod 8	<p>gweithredu diogelu. Mae modd i reolwr y ward, a'i ddirprwy os yw'n absennol, gael mynediad at ddelweddau'r camerâu teledu cylch cyfyng. Mae delweddau o'r camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu recordio mewn cylchred o 30 diwrnod, ac mae hyn yn dileu ar unwaith unrhyw ddelweddau a recordiwyd y tu allan i'r cyfnod hwnnw.</p> <p>Bydd adolygiad o'r defnydd o gamerâu'n cael ei gynnal, a bydd polisi a gweithdrefn leol ar gyfer defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu datblygu. Bydd y polisi hwn yn sicrhau nad yw'r camerâu'n amharu ar urddas a phreifatrwydd cleifion.</p> <p>Mae monitor y camerâu teledu cylch cyfyng wedi'i leoli yn swyddfa'r nyrsys o fewn y ward, sy'n ardal ddynodedig ar gyfer staff y ward yn unig, ac mae hyn yn sicrhau mai dim ond yr aelodau o staff sydd angen gwneud hynny sy'n edrych ar ddelweddau'r camerâu. Bydd</p>		<p>Mawrth 2018</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>hyn yn cael ei fonitro gan reolwr y ward.</p> <p>Gwnaed arolygiad ar unwaith o'r defnydd o'r camera yn y man gofal ychwanegol, ac mae'r camera dan sylw wedi'i ddatgysylltu. Ni fydd camera arall yn cael ei osod nes bod adolygiad o'r defnydd o gamerâu wedi'i gynnal, a bod polisi a gweithdrefn leol wedi cael eu rhoi ar waith.</p> <p>Dywedir wrth gleifion wrth iddynt gael eu derbyn fod camerâu teledu cylch cyfyng ar waith yn yr uned i gleifion mewnol. Rhoddir copi o daflen wybodaeth y ward i bob claf, ac mae'r daflen wedi'i diweddarau i gynnwys y defnydd o gamerâu teledu cylch cyfyng ar y ward.</p> <p>Mae hysbysiadau'n cael eu harddangos yn yr uned sy'n dweud bod camerâu teledu cylch cyfyng ar waith yn ardaloedd cymunedol/ymwelwyr y ward.</p>		<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Cafodd y Rhestr Iechyd ar gyfer ward Carn-y-cefn ei hadolygu ym mis Medi 2017 gan Nyrsys Arwain yr Is-adran a'r Gyfarwyddiaeth, yng nghyd-destun diwallu anghenion ei phoblogaeth o gleifion mewnol, a nodwyd bod gan y ward gyflenwad llawn o staff sy'n cyfateb i'r rhestr hon.</p>		Cwblhawyd
<p>Mae angen adolygu'r cod ymarfer, a diwygio prosesau mewnol o ganlyniad, yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> Y broses ynghylch hawliau meddyginiaeth</li> <li><input type="checkbox"/> Y broses ynghylch sicrhau bod gan gleifion gopïau o'u papurau cadw</li> <li><input type="checkbox"/> Tystiolaeth bod sgysiau'r ymgylgoreion statudol yn cael eu cofnodi, a thystiolaeth o'r adborth a roddir i glaf ar ôl ymweliad gan feddyg a benodwyd i roi ail farn</li> <li><input type="checkbox"/> Tystiolaeth yn nodiadau'r cleifion</li> </ul>	<p>Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru 2017, Penodau 14, 23, 24, 25</p> <p>(Hawliau Meddyginiaeth 4.23; Copïau o bapurau cadw 4.14; Ymgylgoreion</p>	<p>Ffurflen Hawliau Cleifion a Gedwir i gael ei chwblhau a'i chofnodi gan staff y ward – ac wedyn ei hanfon at Swyddfa Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn cymryd camau gweithredu os yw claf yn gwneud cais am eu papurau cadw. Gweler Atodiad 1</p>	<p>Staff y ward / Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>Rhagfyr 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ynghylch y gallu i gydsynio i feddyginaeth	statudol, adborth gan y clinigydd cyfrifol i'r claf, 25.62–25.69; Tystiolaeth o'r gallu i gydsynio i feddyginaeth yn y nodiadau 25.29 – 24.37)	<p>Mae angen atgoffa clinigwyr cymwysedig o'u dyletswyddau proffesiynol o ran sicrhau bod cofnod o'r ymgynghoriad gyda meddyg a benodwyd i roi ail farn yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.</p> <p>Clinigwyr cyfrifol i gael eu hatgoffa ynghylch cyfathrebu a chofnodi adborth o ymweliad y meddyg a benodwyd i roi ail farn yn nodiadau'r cleifion.</p> <p>Clinigwyr cyfrifol i sicrhau bod asesiad o alluedd wedi'i gynnal a bod hyn wedi'i gofnodi yn nodiadau'r cleifion.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Gweinyddwr y Ddeddf lechyd Meddwl / Clinigwyr Cyfrifol</p> <p>Gweinyddwr y Ddeddf lechyd Meddwl / Clinigwyr Cyfrifol</p>	<p>Tachwedd 2017</p> <p>Rhagfyr 2017</p> <p>Rhaglen archwilio nodiadau achos rheolaidd ar waith i gynnwys y gwaith o weinyddu'r Ddeddf lechyd Meddwl.</p>

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth



Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen rhoi system gynhwysfawr ar waith sy'n gallu darparu trosolwg o statws cyfredol hyfforddiant staff a sicrhau bod staff yn diweddarau eu rhaglen hyfforddiant gorfodol.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda chynrychiolydd o Dîm e-Systemau'r Bwrdd lechyd er mwyn trafod y mynediad a nodir o fewn argymhelliad AGIC.</p> <p>Y Tîm e-Systemau i roi'r hyfforddiant perthnasol i reolwyr a dirprwy reolwyr y ward er mwyn cael mynediad at y system.</p>	Rheolwr y ward Tîm e-Systemau	Tachwedd 2017
<p>Mae angen cynnal adolygiad o argaeledd hyfforddiant (yn benodol hyfforddiant yn null ystafell ddsbarth) ac o ba mor aml mae hyfforddiant yn cael ei ganslo, er mwyn nodi'r effaith y caiff hyn ar y ward, a gallu staff i ddarparu gofal diogel i'r grŵp cleifion.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Mae swydd Band 6 a swydd Band 4 yn cael ei eu cymeradwyo er mwyn cefnogi gyda hyfforddiant a galw o ran rheoli ac atal trais ac ymddygiad ymosodol.</p> <p>Y gyfradd cydymffurfiaeth ar gyfer Carn-y-cefn ar hyn o bryd yw 95%. Mae'r staff sy'n weddill wedi'u cofrestru ar gyfer dyddiadau ym mis Tachwedd.</p>	Arweinydd Hyfforddiant, Addysg a Rheoli ac Atal Trais ac Ymddygiad Ymosodol – Is-adran lechyd Meddwl	Ionawr 2018
<p>Mae angen ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ynghylch y Ddeddf lechyd Meddwl wrth gynllunio hyfforddiant diweddarau ar gyfer staff, fel bod gwybodaeth a dealltwriaeth well yn cael eu rhannu ymysg staff.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Mae hyfforddiant ar y Ddeddf lechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddwl yn cael ei lunio, er mwyn cynnal gweithdai hanner diwrnod sy'n mynd i'r afael â meysydd penodol megis y Ddeddf</p>	Arweinydd hyfforddiant y Ddeddf lechyd Meddwl	Rhagfyr 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Hawliau Dynol / Deddf Cydraddoldeb. Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol / Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid / pwerau cadw / pwerau mewn argyfwng; pwerau'r heddlu a mannau diogel / triniaeth feddygol / claf yn absennol heb ganiatâd; derbyn a chraffu ar bapurau cadw.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Ana Llewellyn**

**Swydd: Nyrs Is-adrannol**

**Dyddiad: 29 Tachwedd 2017**